



Mannau Agored

Papur Testun Rhif 4 – Crynodeb

Cyflwyniad

Mae'r System Gynllunio'n rheoli ac yn dylanwadu ar weithgarwch datblygu ac mae ganddi rôl allweddol i'w chwarae yn y gwaith o warchod manau agored presennol yn barhaus, a chreu manau agored newydd fel rhan o ddatblygiadau newydd.

Cyd-destun

Mae argaeledd manau agored yn elfen bwysig o fywyd pob dydd. Mae pobl yn gwerthfawrogi manau agored am eu manteision gweledol a hefyd am eu buddion iechyd a hamdden. Mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC) yn mynnu bod manau agored yn cael eu gwarchod rhag datblygiad, yn arbennig mewn ardaloedd trefol lle maent yn cyflawni nifer o ddibenion, nid yn unig drwy wella ansawdd bywyd, ond hefyd drwy gyfrannu at fioamrywiaeth, gwarchod y tirwedd a byd natur a safon yr aer. Mae PCC hefyd yn ceisio gwarchod caeau chwarae. Mae manau agored yn rhan annatod o ddatblygiadau tai newydd, o ran eu lleoliad a'u math, er mwyn gwella ansawdd y datblygiad yn gyffredinol.

Yn ogystal â manau agored anffurfiol a ffurfiol mae manau gwyrdd yn y Sir sy'n werthfawr o ran tirwedd a bywyd gwyllt ac fel toriad gweledol a chymeriad. Yn aml mae manau gwyrdd fel hyn yn ffurfio coridorau pwysig ac yn darparu cysylltiadau â chefn gwlad agored ehangach.

Rôl y Cynllun

Bydd cydnabod fod manau agored o safon

uchel a reolir yn dda yn cynorthwyo plant, pobl ifanc ac oedolion i fyw bywydau iachach, chwarae, cymryd rhan mewn chwaraeon a gwneud ymarfer corff bob dydd yn rheolaidd mewn amgylcheddau diogel, deniadol a lled-naturiol wrth wraidd agwedd y Cynllun Datblygu Lleol tuag at fannau agored. Mae rhwydweithiau manau agored yn galluogi pobl i deithio mewn amgylcheddau di-gerbyd ac yn rhoi cyfle i fywyd gwyllt ymfudo, magu a chytrefu gan wella amrywiaeth a chyfoeth ein hamgylchedd naturiol lleol a rhoi mwynhad ychwanegol i bobl leol. Oherwydd yr holl wahanol fathau o fannau agored, mae angen eu rheoli'n ofalus o ran gwahanol ddefnyddwyr er mwyn osgoi neu ostwng gwrthdaro.

Dogfennau Ategol

- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig "Hawliau'r Plentyn".
- Pobl, Lleoedd, Dyfodol, Cynllun Gofodol Cymru (2004)
- Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 5 (2012)
- Nodyn Cyngor Technegol 16: Hamdden a Mannau Agored (Ionawr 2009)
- Meysydd Chwarae – Cynllunio a Dylunio ar gyfer Chwaraeon a Hamdden yn yr Awyr Agored (2008)
- Creu Cymru Egniol
- Dringo'n Uwch (2005)
- Mesur a Rheoliadau Plant a Theuluoedd (2010)
- Ein Dyfodol Iach: Strategaeth Iechyd Gyhoeddus Genedlaethol Cymru (2009)

- Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol
- Strategaeth Gefn Gwlad Sir y Fflint (2000)
- Cynllun Gweithredu Seilwaith Gwyrdd Arfordir Sir y Fflint (2011)
- Cynllun Gweithredu Seilwaith Gwyrdd Dyfrdwy Isaf a Neston (2012)
- Creu Sir y Fflint Egniol (2010)
- Strategaeth Fframwaith Mannau Gwyrdd (2013)
- Strategaeth Hamdden (2009)
- Asesiad a Chynllun Gweithredu Cyfleoedd Chwarae Digonol Sir y Fflint (2013)
- Strategaeth Bywyd Gwyllt Sir y Fflint

Materion yr eir i'r afael â nhw yn y Cynllun

Mae'r dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd yn dangos nifer o negeseuon allweddol, sef:

- Mae manau agored yn werthfawr i'r gymuned leol ac mae'n rhaid eu diogelu i sicrhau fod 3.2 hectar o fannau agored ar gael i bob 1000 o'r boblogaeth (neu 32 metr sgwâr i bob unigolyn);
- Mae diffygion mesurol mewn darpariaeth manau agored, fodd bynnag mae angen ystyried mathau eraill o fannau agored, gan gynnwys cyfleusterau arfordirol, comin a phreifaf, wrth edrych ar anghenion;
- Yn ogystal ag ansawdd a lleoliad manau agored, mae nifer y manau agored sydd ar gael yn bwysig yn arbennig i gymunedau mewn ardaloedd datblygedig dwys lle mae'r cyfle i gael mynediad at fannau agored yn brin;
- Mae diffyg meintiol ledled y sir mewn darpariaeth caeau chwaraeon ac mae problemau ansoddol pellach gyda'r stoc bresennol o gaeau chwaraeon;
- Dylai datblygiadau newydd gyfrannu at ddarparu manau agored newydd i ddiwallu anghenion preswylwyr newydd yn arbennig mewn ardaloedd lle mae manau agored yn brin – a ddylai hyn fod yn berthnasol i anheddau sengl?;

- Dylai manau agored newydd gael eu rheoli'n briodol ac mae mesurau diogelu'n cael eu cynnwys i sicrhau fod y manau'n dal i fod ar gael i'r dibenion a fwriedir yn y tymor hir;
- Mae afon Dyfrdwy yn llinell strategol o fannau agored a allai, pe bae hygyrchedd yn cael ei wella, roi mynediad i gymunedau lleol at fannau agored;
- Mae manau agored yn fwy gwerthfawr pan maent yn cael eu cysylltu mewn rhwydwaith o fannau agored sy'n ffurfio coridorau gwyrdd;

Polisiâu / Cynigion Defnydd Tir Posibl

- Dylai manau agored mewn ardaloedd a nodir ar gyfer datblygiad yn y dyfodol gael eu gwarchod yn y cynllun hwn;
- Dylai cynigion sy'n arwain at golli manau agored fod yn destun Asesiad o Effaith ar Iechyd;
- Nodi'r Parth Arfordirol;
- Dylai datblygiadau newydd yn / ger y parth arfordirol gyfrannu tir a/neu gyllid at greu Parc Arfordirol Afon Dyfrdwy Sir y Fflint;
- Nodi manau gwyrdd a choridorau gwyrdd strategol;
- Ni ddylai datblygiadau newydd yn na ger coridorau gwyrdd a nodwyd niweidio gwerth y manau hynny i bobl a symudiadau bywyd gwyllt. Dylai wneud cyfraniad positif o dir a/neu gyllid tuag at wella'r coridor gwyrdd dan sylw.
- Dylai manau agored newydd gael eu cynllunio'n dda; dylent roi mynediad cyfleus a diogel i bob defnyddiwr; dylid cael digon o blanhigion a gwaith tirlunio; dylent gynnwys mesurau gwylidwraeth gweledol; a chlustogfeydd hael er mwyn tarfu cyn lleied ag sy'n bosibl ar dai cyfagos.

Tystiolaeth Bellach Angenrheidiol

Yn yr adolygiad o'r dystiolaeth a oedd ar gael, nodwyd rhai diffygion yn y sylfaen dystiolaeth a bydd angen cynnal astudiaethau pellach fel a ganlyn:

- Asesiad o Gaeau Chwarae'r Sir
- Cwblhau'r Astudiaeth Mannau Gwyrdd Naturiol Hygyrch